CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

# SEFYDLIADAU IEUENCTID GWIRFODDOL YNG NGHYMRU

## "Effeithiau Ad-drefnu Llywodraeth Leol a Newid Phatrymau Cyllido"
## Prosiect Ymchwil: Cyfnod Dau


UNED ER ADDYSG IEUENCTID, OEDOLION A CHYMUNED
UYACE
Alan Higgins, Muriel Howells, Doug Jones and G. Anne H. Donald. 1998
Cyngor Ieuenctid Cymru
Llys Leslie, Lôn y Llyn, Caerffili CF83 1BQ
Ffôn 029 20 855700 Ffacs 029 20 855701
Mae'r adroddiadau hyn hefyd ar gael ar ein gwe www.wya.org.uk

BLANK PAGE

# CYNNWYS

**CEFNDIR**

1. **CYFLWYNIAD**

2. **PWRPASAU A PHOLISIAU**

3. **PARTNERIAETHAU**

4. **ADNODDAU**

5. **PATRYMAU DARPARIAETH**

6. **GWERTHUSO**

7. **GOLWG CYNHWYSFAWR**

# EFFEITHIAU AD-DREFNU LLYWODRAETH LEOL A NEWID PHATRYMAU CYLLIDO AR SEFYDLIADAU IEUENCTID GWIRFODDOL: CYFNOD DAU

## Cefndir

Hybwyd yr ymchwiliad a roddodd fodd i'r adroddiad hwn gan gyfuniad o ffactorau. Ymhlith y rhain ceid ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru a'r cyfyngiadau ariannol cynyddol a brofai'r gwasanaeth ieuenctid. Credid y byddai sefyllfa'r mudiadau gwirfoddol yn allweddol er y byddai pob adran o'r gwasanaeth ieuenctid yn cael ei heffeithio.

Ceisiodd yr ymchwil, yn ymestyn dros ddau gyfnod a hwn yn ail, benderfynu sut yr ystyrid ad-drefnu llywodraeth leol gan fudiadau gwirfoddol a sut y byddai'r awdurdodau newydd yn defnyddio potensial y sector gwirfoddol wrth ddarparu ar gyfer pobl ifan. Yn ogystal, ceisiodd ddarganfod sut y byddai gwahanol fathau o drefniadau cyllido cyhoeddus yn effeithio ar amcan, pwrpas a darpariaeth gwaith ieuenctid gan fudiadau ieuenctid gwirfoddol.

Gwnaed yr ymchwil gan aelodau'r Uned er Addysg Ieuenctid, Oedolion a Chymuned, a leolir yn yr Ysgol Addysg, Prifysgol Cymru, Caerdydd. Ceir gwybodaeth am yr Uned, manylion am gyd-destun a dulliau'r ymchwil a chanlyniadau cyfnod cyntaf yr arolwg yn yr 'Adroddiad Dros Dro: Cyfnod Un', sydd ar gael gan yr Ysgol Addysg, Blwch Post 922, 21 Senghennydd Road, Caerdydd CF2 4YG, am £1.50 [gan gynnwys cludiant]. Sieciau'n daladwy i UYACE.

## EFFEITHIAU AD-DREFNU LLYWODRAETH LEOL A NEWID PHATRYMAU CYLLIDO AR SEFYDLIADAU IEUENCTID GWIRFODDOL: CYFNOD DAU

### 1. Cyflwyniad

1.1 Yr adroddiad yw yw ail gyfnod proses mewn dwy ran a fwriada fesur effeithiau ad-drefnu llywodraeth leol ar waith mudiadau ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru.

l .2 Cwblhawyd y cam cyntaf ym Mawrth 1996. Diweddodd gyda chyhoeddi adroddiad dros dro, 'Mudiadau Ieuenctid Gwirfoddol: Effeithiau ALlL a Phatrymau Cyllido Newydd'. Canolbwyntiodd yr adroddiad yn bennaf ar agwedd mudiadau ieuenctid gwirfoddol tuag at yr effeithiau a gâi'r ad-drefnu llywodraeth leol arfaethedig ar eu gwasanaethau i bobl ifanc. Adolygodd y camau yr oeddynt hwy a sefydliadau ieuenctid cenedlaethol yn eu cymryd i baratoi ar gyfer sefydlu'r awdurdodau lleol newydd a'r paratoadau cyfatebol a wneid gan yr awdurdodau cysgod i sicrhau parhad cefnogaeth i'r sector ieuenctid gwirfoddol.

1.3 Ymgymerwyd ag ail ran y broses yn 1997, flwyddyn ar ôl sefydlu'r strwythur llywodraeth leol newydd. Ymwelwyd â mudiadau ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol ac ymgynghorwyd â sampl o swyddogion yr awdurdodau newydd er mwyn deall eu hagwedd tuag at effeithiau ad-drefnu ar ddarpariaeth gwasanaethau i bobl ifanc yn y sector gwirfoddol. Bu barn unigolion allweddol ym maes gwaith ieuenctid, ynghyd â phrofiad mwy cyffredinol aelodau o'r tîm ymchwil, yn foddion i estyn a chaboli'r safbwyntiau a fynegwyd yng nghwrs y gwahanol ymgynghoriadau.

### 2. Pwrpasau a Pholisïau

2.1 Gosodir amcanion gwaith ieuenctid - a dynnwyd o ddatganiadau bwriadau, polisïau a phwrpasau pwysicaf amrywiaeth o fudiadau ieuenctid - allan yn yr adrdoddiad am gyfnod 1 yr arolwg hwn. [2.2]. Cyfeiriodd yr adroddiad at 'Ddatganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid (Cymru)' lle y dywedir bod gwaith ieuenctid "i'w weld yn cynnig cyfleoedd sy'n addysgiadol, yn gyfrannol, yn alluogol ac yn fynegiannol".

2.2 Canfu'r arolwg hwn nad yw ad-drefnu llywodraeth leol wedi troi mudiadau ieuenctid gwirfoddol ymhell o'u hamcanion a'u pwrpasau gwreiddiol na'u hagwedd draddodiadol tuag at weithio gyda phobl ifanc. Nid yw chwaith wedi arwain at ail-ddatgan eu bwriadau nac ymholi'n ddwys ynghylch egwyddorion gwaith ieuenctid fel y'u ceir yn y datganiad cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, mae wedi peri i'r rhan fwyaf o'r mudiadau arlygu eu rhaglenni ieuenctid cyfredol gan ailystyried addasrwydd eu hamcanion. Mae rhai'n barod i gydnabod manteision ad-drefnu, a'u hysgogodd i ystyried eu darpariaeth a'i pherthynas ag atebion yr awdurdod lleol i anghenion pobl ifanc.

2.3 Mwy amlwg yw'r newidiadau mewn polisi ac arfer parthed darpariaeth i bobl ifanc a fabwysiadwyd gan yr awdurdodau lleol newydd. Cyn ac ar ôl ad-drefnu mae'r rhan fwyaf o'r swyddogion â chyfrifoldeb am wasnaethau ieuenctid wedi ailasesu'u darpariaeth. Mae hyn wedi arwain rhai i egluro pa anghenion y dylai eu gwasanaethau eu trin ac i ail-ddatgan polisïau'n fanylach. Mae un awdurdod wedi arlygu ei bolisi gyda newid pwyslais arwyddocaol; ond cadarnha nad oes eto strwythur digonol i'w roi mewn grym.

2.4  Mae ad-drefnu mewn awdurdod arall wedi arwain at ddisgwyliadau gwahanol a gwrthdrawiadol o'i wasanaethau i bobl ifanc.   Mae aelodau etholedig yn anghytuno ynghylch darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio'n bennaf ar bobl ifanc anfodlon , yn ogystal â rhai wedi'u gwahardd neu ar fin eu gwahardd, a gwasanaeth â chysylltiad agosach â gwasanaethau hamdden lle ni welir pobl ifanc ond fel cwsmeriaid neu ddefnyddwyr adnoddau.  Mewn mannau eraill, mae cynghorwyr yn rhagweld gwasanaethau'n cofleidio ymatebion cynyddol gadarnhaol i broblemau penodol tra maent yn gwrthwynebu'n ffyrnig gau canolfannau ieuenctid cyffredinol yn eu wardiau.  Ar yr un pryd, mae nifer o weithwyr ieuenctid yn anhapus gydag unrhywbeth ond eu darpariaeth, dulliau a chleientau arferol.

2.5  Mae polisïau yn yr awdurdodau newydd yn dangos twf positif mewn diddordeb mewn dulliau rhyngadrannol o ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc.  Croesewir ymateb unedig i anghenion pobl ifanc.  Yn ymarferol mae datblygiad o'r fath yn tynnu sylw at y ffaith bod awdurdodau'n symud o ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio'n bennaf ar addysg bersonol a chymdeithasol at rai sy'n darparu ymatebion cadarnhaol i broblemau ac anghneion penodol.  Ar ben hyn, mae tuedd o'r fath yn estyn gwneud polisïau i adrannau lle y gall nad oes gan swyddogion ond ychydig wybodaeth gefndirol am athrawiaeth ac arferion gwaith ieuenctid ac i bwyllgorau lle nid oes ond ychydig brofiad o fuddiannau elfennau addysgiadol, cyfranogol, galluogol a mynegiannol gwaith anffurfiol gyda phobl ifanc.

## 3.  Partneriaethau

3.1  Mae deddfwriaeth yn ymwneud â darparu gwasanaethau i bobl ifanc yn cyfeirio mewn gwahanol fannau at ddarpariaeth o'r fath fel partneriaeth rhwng y sectorau cynaledig a gwirfoddol.  [Adroddiad cyfnod 1 : 3.1 ].

3.2  Mae darparwyr yn y ddau sector wedi ymlynu ers amser at ddull partneriaeth ond mae amrywiaeth drwy Gymru yng ngraddau'r trefniadau a'r lefelau.  Anaml yr estynnwyd hwn i gylch llunio polisi tra bod partneriaeth mewn cyd-gynllunio defnyddio adnoddau wedi bod yn gyfyngedig ac arwynebol.

3.3  Rhoddodd ad-drefnu llywodraeth leol fod i gyfleoedd i ddatblygu partneriaethau ystyrlon rhwng yr awdurdodau lleol a mudiadau ieuenctid gwirfoddole.  Ar drothwy sefydlu'r awdurdodau newydd nid oedd fawr o dystiolaeth ar gael i ddangos bod cyfleoedd o'r fath yn cael eu cofleidio.  Nid oedd le i wasanaethau ieuenctid yn y rhestri o brif flaenoriaethau pwyllgorau cysgod tra bod oedi wrth benodi person,l uwch i'r gwasanaethau ieuenctid a diffyg eglurder am eu cyfrifoldebau'n yn ei gwneud yn amhosibl gwario digon o amser i ddatblygu trefniadau partneriaeth ym mywyd cynnar yr awdurdodau newydd.  Roedd creu lle i fudiadau gwirfoddol wrth baratoi polisïau newydd i wasanaethau ieuenctid yn beth prin.

3.4  Mae ceisiadau i ddatblygu cydweithio rhwng y sectorau gwirfoddol a chynaledig wedi cynyddu flwyddyn ar ôl dechrau'r cynghorau newydd.  Mae ymwybyddiaeth gynyddol am fanteision potensial gweithio rhwng sectorau, yn enwedig lle bo polisi'n canolbwyntio ar roi ymateb corfforaethol i broblemau penodol.  Nid yw'r awydd am bartheraieth wedi'i seilio bob amser ar rinweddau megis cydddealltwriaeth a pharch y

naill am athrawiaeth y llall, ar gyfartaledd enw da na'r angen am gyfaddawd a hyblygrwydd - ffactorau ymhlyg bob un mewn cydweithredu llwyddiannus.

3.5 Mae'r dulliau cydweithredol sy'n datblygu o hyd yn ifanc. Mae pawb yn derbyn y bydd partneriaethau'n golygu defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol, y bydd yn lleihau dyblygu ac y bydd yn hyrwyddo cyfnewid sgiliau. Cynfyngir ar y graddau y gellir manteisio ar bartneriaethau, fodd bynnag, gan ddiffyg swyddog yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau gydag unrhyw gyfrifoldeb am ddwyn partneriaeth o'r fath i fod. Ar ben hyn, mae ad-drefnu wedi golygu lleihad yn yr adnoddau sydd ar gael i wasanaethau ieuenctid. Mewn rhai awdurdodau mae diffyg adnoddau wedi arwain at atal grantiau yn y sector gwirfoddol tra bod newidiadau yn y defnydd a wneir o adeiladau wedi gwneud y pris yn rhy ddrud i grwpiau gwirfoddol. Mewn achosion o'r fath nid oes llawer o dir cadarn i adeiladu trefniadau partneriaeth arno.

**4. Adnoddau**

4.1 Bron yn ddieithriad mae mudiadau gwirfoddol yn cytuno bod denu adnoddau ar gyfer gwaith gyda phobl ifanc yn dod yn fwyfwy anodd. Mae cyllido craidd yn dal yn broblem er bod y rhai sy'n llwyddo i dderbyn cefnogaeth y Swyddfa Gymreig yn croesawu'r cyfle i wneud cais am grantiau i gwrdd â chostau rheoli. Er hynny, cyfyngir ar fudidau gan ddiffyg adnoddau i ddatblygu'r strwythurau angenrheidiol i ymateb i bwysleisiau newydd gwaith ieuenctid ac i ddatblygu'r math o raglenni a mentrau a geisir gan awdurdodau lleol.

4.2 Mae cynnal gwasanaethau canolog a lefel staff pencadlys wedi dod yn fwy anodd ar gyfartaledd wrth i noddwyr gyplysu grantiau gyda chanlyniadau penodedig. Mae rhif y gweithwyr proffesiynol canolog yn y sector gwirfoddol wedi gostwng yn gyson dros y blynyddoedd diweddaraf gyda phenodiadau newydd wedi'u cyplysu'n gyfangwbl â chyrraedd targedau o fewn prosiectau a gostiwyd yn dynn. Lle bydd elfen reoli yn rhan o'r grantiau, anaml y daw'n agos i gostau go-iawn yr amser a dreulir i reloi a chefnogi staff yn ddigonol ac arolygu cynnydd.

4.3 Ym mhob un bron o'r mudiadau ieuenctid a arolygwyd mae'r amser a neilltuir i godi arian a cheisio adnoddau eraill wedi cynyddu. Mewn rhai achosion penodwyd rhywun yn llawn amser i godi arian; droarallI gorfodwyd prif swyddogion i roi heibio tasgau proffesiynol er mwyn adennill yr incwm a gollwyd o ffynonellau a oedd gynt yn ddibynadwy. Mewn un achos roedd yr adnoddau a gafwyd yn llai na chostau amser y staff a wariwyd, ac mewn achos arall mae'r lleihad annisgwyl mewn incwm o fuddsoddiadau a ffynonellau eraill yn gorfodi staff i dreulio mwy na hanner eu hamser yn ceisio nawdd o ffynonellau amgen.

4.4 Er gwaethaf y pryder cyffredinol ynghylch dyfodol cyllido, nid oes tystiolaeth yn unman bod mudiadau wedi troi oddi ar y rhaglenni a gynlluniwyd er mwyn ceisio nawdd. Mae'r rhan fwyaf wedi osgoi cynyddu incwm trwy fynd ar ôl cymorth grant i brosiectau ymylol. Fodd bynnag, mae'r amser a dreuliwyd yn ceisio ffynonellau nawdd a chwblhau ceisiadau hir a manwl yn aml iawn wedi dod yn fwy cyffredin i nifer o fudiadau. Mae'n glir, hefyd, fod y prif noddwyr, oherwydd awydd i gyfiawnhau gwerth am arian ac i greu'r argraff o "wneud gwahaniaeth" mewn rhyw gyfeiriad neilltuol, yn lleihau'r meysydd hynny lle y dyfernir grantiau. Mae llai o gefnogaeth flynyddol gan

ymddiriedolaethau sydd wedi noddi mudiadau ieuenctid yn y gorffennol heb fynnu canlyniadau ac eithrio adroddiadau blynyddol a chofnodion cyrhaeddiad.

4.5 Mae'r rhan fwyaf o fudiadau ieuenctid gwirfoddol wedi ceisio neu yn ceisio grantiau gan y Loteri Genedlaethol - yn neilltuol felly gan y Bwrdd Elusennau. Mae'r rhan fwyaf o'r ceisiadau ar gyfer prosiectau cyfalaf, gan gynnwys adnewyddu adeiladau neu brynu offer. Mae rhai grwpiau wedi ennill grantiau i ddatblygu gwasanaethau i bobl ifanc yn lleol neu i hyrwyddo materion megis camdrin sylweddau ymhlith pobl ifanc. Mae enghreifftiau o gyllido ar gyfer gweithwyr amser llawn neu ran-amser ond anaml y cydylltir y rhain â strwythur na datblygiad canolog y pencadlys. Croesewir adnoddau o'r fath yn fawr; "arian newydd" yw i'r sector gwirfoddol, sy'n ei alluogi i wella cyflwr adeiladau ac i roi bywyd newydd i unedau lleol.

4.6 Yn y flwyddyn yn dilyn ad-drefnu, mae grantiau'r awdurdod lleol i fudiadau ieuenctid lleol wedi lleihau'n sylweddol drwy Gymru. I ryw raddau roedd hyn yn adlewyrchiad o ddiffyg strwythur mewn prosesu ceisiadau. Ar y gorau roedd lefelau grantiau'n ddrych o arferion y gorffennol. Bu i rai awdurdodau atal cefnogaeth i'r sector gwirfoddol a olygai staff segur a gwasanaethau llai. Mae lleihad cyfatebol mewn gwasanaethau awduredod lleol i bobl ifanc wedi golygu darpariaeth sylweddol is mewn rhai siroedd. Mae tystiolaeth ddiweddar yn dangos bod awdurdodau lleol bellach yn awyddus i ddefnyddio adnoddau'r sector gwirfoddol wrth ddarparu gwasanaethau digonol i bobl ifance. Datblygwyd neu ystyriwyd cytundebau ynghylch lefel gwasanaethau gyda sawl mudiad ieuenctid cenedlaethol. Mae swyddogion yr awdurdodau'n awyddus i adnewyddu dulliau partneriaeth wrth gwrdd ag anghenion pobl ifanc. Er hynny, nid yw'n debygol y bydd bwriadau felly'n rhyddhau adnoddau ychwanegol i gefnogi gwaith cyffredinol mudiadau ieuenctid, nac y bydd cefnogaeth ddigonol at ei gilydd o gyllideb y cynghorau i ailsefydlu cyllido ar yr un lefel â chyn ad-drefnu. Mae'r ffaith bod swyddogion mudiadau gwirfoddol bellach yn gorfod negodi gyda 22 o awdurdodau lleol er mwyn symiau o arian cymharol fychan yn rhoi mwy o bwysau arnynt am ychydig iawn o elw.

4.7 Mewn rhai awdurdodau lleol mae mudiadau ieuenctid gwirfoddol wedi gweld lleihad mwy mewn cefnogaeth i'w rhaglenni nag a welwyd yn narpariaeth y cyngor ei hun. Mae hyn wedi rhoi bod i'r syniad bod yr awdurdod yn rhoi llai o bwys ar waith ieuenctid gwirfoddol nag ar waith y secotr cynaledig. Mae toriadau anghyfartal wedi chwalu hyder yn ogystal â chreu anawsterau ymarferol. Ar ben hyn, mae polisïau diweddar llywodraeth ganolog yn gwneud awdurdodau'n noddwyr annibynadwy mewn cefnogi gwasanaethau ieuenctid gwirfoddol. Ni all mudiadau mwyach ddisgwyl incwm cyson gan awdurdodau ar yr un lefel ag y bu cyn ad-drefnu.

4.8 Mae sefydlu cytundebau ar lefel gwasanaethau rhwng mudiadau ieuenctid ac awdurdodau lleol ar gynnydd - yn enwedig mewn perthynas â dau ohonynt lle mae cysylltiadau gyda sawl awdurdod. Nid oes lawer o dystiolaeth i awgrymu mai cytundebau o'r fath fydd y prif lwyfan ar gyfer adeiladu datblygiadau rhwng sectorau. Mae perygl y byddant yn cynnig dewisiadau bargen gyda'r awdurdodau'n cefnu ar eu dyletswydd gyfreithiol i ddarparu gwasanaeth digonol trwy drosglwyddo'u cyfrifoldebau i'r sector gwirfoddol. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf mae awdurdodau wedi mynnu gofyn am gynlluniau busnes, mesurau perfformiad a threfnidau arolygu gyda'u grantiau sydd, ar un ystyr, yn rhagdybio cytundebau ar lefel gwasanaethau.

4.9 Trosglwyddwyd y 'Cynllun Grantiau i Fudiadau Ieuenctid Gwirfoddol yng Nghymru', a weinyddwyd gynt gan y Swyddfa Gymreig ac a aseswyd gan Arolygydd Ei Marwhydi, i Gyngor Ieuenctid Cymru o 1997. Ni bu ond ychydig dwf, mewn termau real, yn y gronfa gyfangwbl sydd ar gael gan i gyfrifoldeb am gyllido'r sector ieuenctid gwirfoddol gael ei drosglwyddo i'r Swyddfa Gymreig yn y 1970au cynnar. A hithau rywfaint yn is na £400,000, rhydd gefnogaeth gyfyngedig iawn i'r 16 o fudiadau mwy neu lai sy'n tynnu arni. Er hyn, mae nifer o fudiadau'n dibynnu'n helaeth arni am gyllid craidd i gefnogi gweithgareddau a rheoli canolog.

4.10 Mae noddwyr yn chwilio'n fwyfwy erbyn hyn am geisiadau'n deillio o ymgynghoriadau rhwng mudiadau a darparwyr statudol. Chwilir am gyllido partneraieth, cyd-gyllido a threfniadau consortiwm ac felly hefyd dystiolaeth fwy cyffredinol bod ymgeiswyr wedi ymgynghori'n helaeth er mwyn osgoi dyblygu. Eto, mae rhai mudiadau ieuenctid gwirfoddol yn amharod i wneud ceisiadau ar y cyd; cynlluniwyd prosiectau i weithio'n annibynnol i bob un gyda thystiolaeth o'r annibyniaeth honno, sy'n creu dyblygu ac yn cyfyngu ar ganlyniadau. Yn y diwedd mae mudiadau'n cystadlu am yr un arian, ac yn aml iawn, er mwyn gwenud yr un pethau.

4.11 Croesawyd dyfodiad cyllido tair-blynedd fel egwyddor cyffredinol yn ddibynnol ar adolygiad blynyddol yn unfrydol. Mae mudiadau'n sôn am y sefydlogrwydd angenrheidiol a ddaw gyda hyn, am yr amser a arbedwyd mewn gwneud ceisiadau bob blwyddyn ac am ddiogelwch y staff a bendwyd i ddarparu prosiectau. Nid oes lawer o dystiolaeth o baratoi ar gyfer parhad cefnogaeth ar ddiwedd y tair blynedd.

4.12 Mae pob mudiad yn dal i geisio adnoddau trwy eu humdrechion eu hunain i godi arian. Mae nifer wedi peidio â gwneud ceisiadau i lywodraeth leol neu ganolog am gefnogaeth oherwydd gwybod bod y symiau'n fach o'u cymharu â'r amser a dreulir yn gwneud ceisiadau ac arolygu ac adrodd am gynnydd. Iddyn nhw, nid yw'n werth chweil ac nid yw'n werth y drafferth.

## 5. Patrymau Darpariaeth

5.1 Ychydig o fudiadau neu o awdurdodau lleol a wadai fod ad-drefnu llywodraeth leol wedi dwyn newidiadau mewn patrymau darpariaeth, amrywiadau ym maint a natur eu gwasanaethau a phwysleisiau a blaenoriaethau gwahanol o fewn rhaglenni gwaith ieuenctid yn ei sgil. Mae tystiolaeth bod angysonderau o hyd yn y lefelau o ddarpariaeth, a wneir yn waeth pan fo awdurdodau dan bwysau ariannol wedi ei chael yn haws torri ar ddarpariaeth wirfoddol. Mae meysydd lle defnyddiwyd adnoddau cyfyngedig i gynnal gwaith gwirfoddol dros y blynyddoedd yn dal i fod y rhai lleiaf cefnogol i waith ieuenctid dan y strwythurau newydd. Mewn cyferbyniad, mae o leiaf un awdurdod sy'n estyn ei ddarpariaeth ac yn harneisio adnoddau'r sector gwirfoddol yn effeithiol.

5.2 Yn y ddau sector ymddengys fod awydd i setyn rhaglenni sy'n ymdrin â materion pwysig i bobl ifanc ac i'r rai sy'n gofalu amdanynt. Mae adnoddau'r awdurdodau lleol, yn aml yn llai o lawer nag y bu ar gael dros y blynyddoedd diweddaraf, yn cael eu defnyddio fwyfwy ar gyfer anghenion a nodir ar y cyd gan sawl adran o fewn yr awdurdod. Am y tro cyntaf mae adrannau o'r fath yn ymwneud â gwasanaethau ieuenctid ac eraill er mwyn diffinio ymateb cydweithredol i broblemau perthnasol i bobl ifanc ac i adnabod y rôl a fydd gan bob un yn y gwaith. Hyd yn hyn nid yw arian ac eithrio o adrannau addysg

wedi bod ar gael i raddau helaeth. Mae hyn wedi arwain at adnoddau annigonol yng nghyllidebau'r AALlau i gynnal oriau agor traddodiadol canolfannau ieuenctid sy'n darparu'n bennaf elfennau cymdeithasol a hamdden gwaith ieuenctid.

5.3 Mae atal cymorth grant i'r sector gwirfoddol mewn rhai siroedd - a lleihad ym maint y cyllido mewn eraill - wedi arwain at wneud gwaith amser llawn yn segur. Mae canolfannau, yn aml iawn, ar agor am lai o oriau'r wythnos ac fe'u rhedir gan weithwyr rhan-amser lle bu swydd amser llawn o'r blaen. Mae rheoli canolfannau felly yn y sector gwirfoddol wedi rhoi mwy o bwysau ar y prif swyddogion ac ar bwyllgorau rheoli lleol. Byddai'n syndod pe na bai torri oriau agor wedi cael canlyniadau tebyg yn y sector cynaledig. Rhedir rhai canolfannau gan weithwyr rhan-amser tra bod gan weithwyr amser llawn gyfrifoldebau rheoli ehangach am addysg ieuenctid ac oedolion o fewn ardal ddiffiniedig. Yn gyffredinol mae llai o gefnogaeth i nosweithiau 'clwb agored' ac i'r ddarpariaeth draddodiadol a gynigir gan lawer o ganolfannau sydd, yn nhyb gweithwyr ieuenctid, yn sylfaenol i ennill ymddiriedaeth pobl ifanc a datblygu ymtebion i'w hanghenion.

5.4 Mae dyfodiad ad-drefnu a'r newidiadau yn sgil hyn yn y pwyslais ar waith gyda phobl ifanc yn annog mudiadau gydag aelodaeth wirfoddol i ystyried y cydbwysedd rhwng rhoi cefnogaeth i glybiau sy'n aelodau a cheisio datblygu gwaith prosiect ar gyfer pobl ifanc nad ydynt yn aelodau yn ogystal â'r rhai sydd. Mae perygl hefyd y bydd newid rhy fawr i'r cyfeiriad hwn yn niweidio'r cyff yr impiwyd y gwaith prosiect arno cynt. Hefyd, mae noddwyr yn rhyfeddu at nifer y bobl y darperir ar eu cyfer mewn clybiau; ni fydd mor hawdd adnabod rhai'n cymryd rhan mewn prosiectau ac fe fyddant yn sicr yn llai eu rhif.

## 6. Gwerthuso

6.1 Bu gofyn dan ad-drefnu llywodraeth leol i awdurdodau cysgod gynnal awdit o'u darpariaeth a mesur yr adnoddau oedd ar gael er mwyn darparu'n ddigonol o fewn y bwrdeistrefi sirol newydd. Canolbwynt rhan o'r awdit o wasanaethau i bobl ifanc oedd y systemau gwerthuso a threfniadau asesu y gofynnir i awdurdodau addysg lleol eu cynnal dan y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Mewn rhai achosion defnyddir "Fframwaith ar gyfer Asesu Addysg Bellach a ddarperir gan yr AALlau" Swyddfa Prif Arolygwyr Ei Mawrhydi fel sylfaen ar gyfer asesu arfer. Mae rhai awdurdodau newydd wedi comisiynu hyfforddiant aseswyr er mwyn cynnwys hunanasesiad ac asesu gan gyfoedion o fewn eu portffolios gwerthuso.

6.2 Yn y sector gwirfoddol mae gofyniad y rhan fwyaf o awdurdodau addysg lleol bod mudiadau'n ceisio grantiau'n cyflwyno cynllun busnes yn cynnwys cynlluniau strategol a gweithredu wedi peri iddynt baratoi canllawiau sy'n eu galluogi i fesur effeithiolrwydd eu gwaith. Mae noddwyr eraill, gan gynnwys y Swyddfa Gymreig, ac yn ddiweddar Cyngor Ieuenctid Cymru, hefyd yn gofyn am dystiolaeth bod prosiectau y ceisir grantiau ar eu cyfer yn ffurfio rhan o gynllun datblygu strategol cyt–n ac yn adlewyrchu nod y corff sy'n cyflwyno cais. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o noddwyr, ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol yn gofyn am dystiolaeth bod systemau effeithiol ar gyfer arolygu cynnydd a sicrhau canlyniadau'n cael eu sefydlu.

6.3 Yn ddieithriad roedd y mudiadau gwirfoddol yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r arolwg yn gadarnhaol ynghylch yr angen am systemau hunanwerthuso, asesiad allanol ac arolygu digonol fel rhan o gytundebau ar lefelau gwasanaethau neu geisiadau am grantiau. Croesawai llawer y gofyn am gyflwyno canllawiau a thargedau gwerthuso gyda'u rhaglenni, gan awgrymu ei bod yn diffinio'u hamcanion yn well ac yn rhoi mwy o foddhad i arweinwyr y prosiectau. Cydnabyddir yn gyffredinol bod y ddisgyblaeth o baratoi adroddiadau cynnydd achlysurol - er ei bod yn gasbeth gan rai - yn rhan hanfodol o arolygu effeithiol. Maent hefyd yn rhoi deunydd ychwanegol ar gyfer adroddiadau rheoli blynyddol a cheisiadau pellach am gyllid.

6.4 Mae Adran 55 o'r Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn gofyn i awdurdodau lleol "gadw dan arolygaeth" ansawdd yr addysg a ddarperir mewn sefydliadau a gynhelir neu a gynorthwyir ganddynt. Lle ni bo awdurdodau mwyach yn rhoi cefnogaeth fe ddilyn fod un ffordd o gynnal ansawdd yn y sector gwirfoiddol yn cael ei aberthu.

6.5 Mae systemau ar gyfer mesur i ba raddau y mae'r gwasanaethau i bobl ifanc a ddarperir yn y sector gwirfoddol yn cyrraedd y grwp targed a chofnodi lefelau cyfranogiad yn gywir yn gyffredinol ar goll. I raddau mwyfwy mae awdurdodau lleol a noddwyr eraill yn gofyn am wybodaeth ynghylch nifer y bobl ifanc a ddenir a'u hoed ynghyd â phroffeil o'u hanghenion a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt. Mae rhai mudiadau'n ailwampio'u cronfeydd data er mwyn adnabod yn well natur eu grwpiau cleient ac i ba raddau y maent yn cwrdd ag anghenion eu grwpiau blaenoriaethol.

## 7. Golwg Cynhwysfawr

7.1 Mae ymateb y sector gwirfoddol i ad-drefnu llywodraeth leol ddwy flynedd yn ddiweddarach yn dal yn amrywiol a chyfnewidiol. Ar lefel genedlaethol, ychydig sy'n cyfeirio at ddatblygiadau sydd wedi newid arfer na niweidio strwythur y mudiadau. Ar y llaw arall, gall y rhan fwyaf o fudiadau gyfeirio at ryw leihad mewn gwaith ieuenctid gwirfoddol ar lefel leol. Mae colli cy,orth grant yn ystod y ddwy flynedd diwethaf neu lai o gefnogaeth ymarferol wedi arwain at gau rhai unedau a lleihad gwasanaethau mewn eraill. Mae enghreifftiau lle mae atal grant wedi golygu colli swyddi gweithwyr ieuenctid; hyd yn oed wedyn mae'n anodd rhoi'r bai i gyd ar ad-drefnu. Mewn achosion eraill dewisodd awdurdodau ddirprwyo adnoddau i ysgolion i gyllido'r defnydd a wneir ohonynt gan fudiadau allanol, gyda rhai ysgolion yn manteisio ar y cyle i godi costau llogi.

7.2 Wrth edrych yn ôl, mae'r mudiadau hynny a edrychai ar ad-drefnu gyda'r pryder mwyaf - y rheini â'r mwyaf i'w golli - yn mynegi gollyngdod na ddaeth eu hofnau gwaethaf i fod. I rai gweithwyr sector gwirfoddol roedd geni'r strwythurau newydd, er mor hir y beichiogi, yn ddim o beth bron. Bu'r cyfnod hir rhwng penodi pwyllgorau cysgod a chadarnhau swyddogion arweiniol ar gyfer wgasanaethau ieuenctid yn yr awdurdodau newydd yn foddion i wasgaru pryderon cynnar er nad oes fawr o dystiolaeth o ymgynghoriad ystyrlon gyda'r sector gwirfoddol ac eithrio gwahoddiadau achlysurol a estynnwyd i fynychu cyfarfodydd.

7.3 Mae person,l uwch mewn mudiadau gwirfoddol yn credu fod yr amser a neilltuwyd ar gyfer paraoi i ad-drefnu yn fuddsoddiad da. Caed cydbwysedd rhwng llwytho aelodau etholedig yr awdurdodau cysgod a swyddogion uwch gyda gormod o wybodaeth, a rhoi

digon o ddeunydd cefndirol i'w galluogi i ystyried cyfran y sector gwirfoddol wrth baratoi strategaethau a chynlluniau i'r gwasanaeth ieuenctid. Mae'n edifar gan rai, serch hynny, na roddwyd digon o sylw i gydgyfraniad y sector ieuenctid gwirfoddol i waith gyda phobl ifanc yng Nghymru ar raddfa genedlaethol. Cydnabyddir rhinweddau'r cynadleddau a'r seminarau a drefnwyd gan gyrff llywodraethol cyn ad-drefnu - yn bennaf ar gyfer person,l y gwasanaeth ieuenctid - ond collwyd cyfleoedd i dynnu sylw cyhoeddus a deinamig at gyfraniad aruthrol gaith ieuenctid gwirfoddol. Bu dosbarthu ystod o lenyddiaeth er gwybodaeth am bolisïau, arferion ac anghenion y gwasanaeth ieuenctid, a baratowyd gan grwp ymgynghorol Cyngor Ieuenctid Cymru, yn fodd i hysbysu gwneuthurwyr penderfyniadau ar lefel leol.

**8. Sylwadau Clo**

8.1 Bydd effeithiau ad-drefnu llywodraeth leol yn dal i gael eu teimlo yn y sector ieuenctid gwirfoddol am beth amser i ddod: nid yw'r broses yn gyflawn.

8.2 Mae'r gwasaneth ieuenctid wedi dod i arfer ag archwilio'i arferion yn achlysurol ac â'r ansefydlogrwydd a gysylltir â phatrymau cyllido ansicr. Mae hyn, ar un ystyr, wedi rhoi bod i apˆl am amser i ymsefydlogi, tra, mewn ystyr arall, mae wedi annog adolygu ac llenwi person,l gyda synnwyr cyfeiriad newydd.

8.3 Mae'n glir na fanteisir ar benderfyniad cynyddol y sectorau cynaledig a gwirfoddol i weithio mewn parneriaeth er mwyn cwrdd ag anghenion pobl ifanc drwy Gymru oni bydd cefnogaeth ariannol ddigonol. O feddwl am adnoddau cyfredol mae lle i amau a ellir ecsbloetio'r cyfoeth o fedrau a phrofiad yn y sector ieuenctid gwirfoddol yn llawn neu a ellir datblygu'r awydd cyffredin am gydweithio'n effeithiol.

8.4 Dros y flwyddyn a mwy i ddod bydd yr Uned yn cynnal ymholiadau pellach ynghylch effaith ad-drefnu llywodraeth leol ar elfennau penodol mewn darpariaeth ieuenctid wirfoddol. Os oes barn gennych neu os hoffech gyfrannu at y ddadl cysylltwch â'r Uned yn y cyfeiriad a roddir ar ddechrau'r adroddiad hwn.

**Cydnabyddiaeth**

Dymuna'r Uned ddiolch i staff mudiadau gwaith ieuenctid, i swyddogion awdurdodau lleol ac i eraill am roi'u hamser i'n galluogi i gynnal yr adolygiad hwn. Mae'n ddiolchgar iawn hefyd am gefnogaeth barhaus yr Ysgol Addysg.